**Eitem ar yr agenda: 3(i)**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 22ain Ebrill 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Ll Davies (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| J R Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D M Morris | Cyngor Sir Ddinbych |
| R P MacFarlane | Cyngor Sir y Fflint |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); P S Coles (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Morris (Swyddog Prosiectau); DO S Neale (Uwch Swyddog Staff dros dro) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D G Parry | Cyngor Sir y Fflint |
| D B Evans | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| F A Nichols | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |
| C Hanks | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc.

Ymddiheurodd y Prif Swyddog Tân mai dim ond fersiwn Saesneg oedd ar gael o'r adroddiad ar y "Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub - i Gymru at ddiben ymgynghori" gan fod cyfieithydd y Gwasanaeth wedi bod yn sâl ac y bu angen galw ar wasanaethau cyfieithydd allanol, a phrofodd hynny yn eithaf anodd oherwydd gwyliau'r Pasg.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod y Swyddog Rhanbarthol Steve Neale, yr Uwch Swyddog Staff dros dro, yn y cyfarfod fel sylwedydd. Croesawodd y Cadeirydd DO Neale i'r cyfarfod.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 23ain Chwefror 2004
ii. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth 2004

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

Codwyd y pwyntiau canlynol o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23ain Chwefror 2004:

**Tud. 3 – Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod:** Dywedodd y Clerc wrth y Panel ei fod wedi meddwl am y pwynt a godwyd gan y Cynghorydd W J Chorlton ynghylch a fyddai'n briodol i aelod o'r Pwyllgor Safonau, a oedd wedi bod yn dyst i ddigwyddiad a fyddai wedyn yn dod yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor Safonau, i gymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn yr ymchwiliad i'r gwyn honno. Wedi ystyried y mater yn ofalus roedd wedi dod i'r casgliad mai amhriodol fyddai i'r aelod dan sylw fod yn ystyried y gwyn.

**Tud. 6 – Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân:** Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau fod y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn dilyn cais y Panel, wedi cytuno i gyfarfod dirprwyaeth o'r Awdurdod i drafod eu cwynion ynghylch y rheoliadau fel y'i lluniwyd, ar gyfer cynllun lwfansau ar gyfer aelodau awdurdodau tân yng Nghymru. Roedd cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer y 29ain Ebrill 2004 yn Llandudno. Cytunodd yr aelodau i gais y Cadeirydd ei fod yn cael penodi aelodau eraill i'r ddirprwyaeth petai unrhyw rai o'r aelodau enwebedig yn methu a mynychu.

**Tud. 7 – Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub:** Dywedodd y Clerc wrth y Panel fod y Mesur bellach wedi cwblhau ei gamau yn Nhŷ'r Cyffredin ac wedi dechrau ar ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi. Cafodd yr aelodau wybod fod y Mesur Drafft a gyflwynwyd i'r Arglwyddi ei ystyried yn cynnwys dau welliant yr oedd Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi lobïo yn eu cylch i'r Llywodraeth: sef na ddylai Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru fod yn agored i weithdrefnau Seneddol, ac y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael y pwerau i benodi gweithrediad y gyfundrefn Gwerth Gorau ar gyfer awdurdodau tân yng Nghymru. Pwysleisiodd y Clerc fod yr Awdurdod yn parhau gyda'r drefn lobïo ar y materion eraill yr oedd wedi eu codi, a chysylltwyd ag Arglwyddi lleol i geisio sicrhau eu cefnogaeth ar ran yr Awdurdod ar gyfer cyflwyno gwelliannau eraill i'r Mesur. Roedd y gwelliannau eraill hyn yn cynnwys materion megis bod y lwfansau oedd i'w talu i aelodau awdurdodau tân i fod yn bensiynadwy yn yr un ffordd â'r lwfansau a delir i gynghorwyr sir, ac na ddylai'r Cynulliad gael y pŵer i benodi aelodau i wasanaethu ar awdurdodau tân.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei waith lobïo trylwyr ar ran yr Awdurdod.

**Tud. 9 – Safle hen Orsaf Dân Llanfairfechan:** I ateb cwestiwn gan yr Is-Gadeirydd ynghylch a oedd y rhai oedd â diddordeb yn safle'r hen orsaf dân wedi cyflwyno cynllun busnes, dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân er y gofynnwyd am gynllun nid oedd un wedi ei dderbyn hyd yn hyn.

**5) Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub - i Gymru at ddiben ymgynghori**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio safbwyntiau'r Panel ar ymateb arfaethedig yr Awdurdod i ddogfen Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân eu bod eisoes, mewn cyfarfod cynharach, wedi cymeradwyo ymateb i ddogfen *"Draft Fire and Rescue Service National Framework"* ar gyfer Lloegr. Y ddogfen dan ystyriaeth yn y cyfarfod hwn oedd y ddogfen bwysicaf a gyhoeddwyd yng nghyd-destun y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, gyda'r ymatebiadau i'w hanfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 3ydd Mai 2004. Er bod rhannau o'r ddogfen yn ailadrodd Fframwaith Drafft Lloegr dywedodd y Prif Swyddog Tân fod rhannau eraill, megis llywodraethu'r gwasanaeth, yn wahanol iawn.

Rhestrodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân i'r Panel y pwyntiau oedd yn yr adroddiad, a luniwyd mewn dull oedd yn ateb y cwestiynau a godwyd yn y ddogfen Fframwaith ei hun, ac atebodd gwestiynau'r aelodau. Dywedodd fod y ddogfen wedi ei llunio yn llac a'i bod yn aneglur mewn sawl man, a bod yna le i wella arno, roedd yn cynnwys enghreifftiau o derminoleg dryslyd ac nid oedd wastad yn glir at ba adrannau roedd y cwestiynau'n cyfeirio.

Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai Pwyllgor Strategol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru (WFRSSC) arfaethedig, sef y pwyllgor a fyddai'n gyfrifol am

gynghori'r Gweinidog, fod yn gorff grymus. Roeddynt yn gadarn o'r farn ei bod yn hanfodol i'w aelodaeth gynnwys aelodau etholedig gan mai hwy fyddai, wedi'r cyfan, yn atebol i'r etholwyr. Roedd angen pwysleisio y dylai o leiaf Gadeirydd a Phrif Swyddog Tân pob awdurdod tân eistedd ar y Pwyllgor hwn; at y diben hwn gofynnwyd i'r gair "*essential*" gael ei osod yn lle'r gair "*envisage*" ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad. Roedd yn bwysig hefyd nad oedd y Pwyllgor yn atgynhyrchiad o'r hen Gyngor Ymgynghorol Canolog y Brigadau Tân (CFBAC). Dylid gwneud cais hefyd i ddosbarthu cylch gwaith y Pwyllgor i bob awdurdod tân cyn gynted ag y bo modd.

Ynghylch y cynnig i gyflwyno categori newydd sef "marwolaethau oherwydd tân y gellid eu hatal", roedd y rhan fwyaf o'r aelodau'n rhannu teimladau'r Swyddogion na fyddai hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol ac yn anghyson â'r drefn rheoli perfformiad mewn rhannau eraill o Wledydd Prydain. Roeddynt yn teimlo ei bod felly'n angenrheidiol cael diffiniad eglur o beth roedd y term "marwolaethau oherwydd tân y gellid eu hatal" yn ei gwmpasu er mwyn sicrhau ymdriniaeth cyson ar draws yr holl awdurdodau. Roedd aelodau eraill o'r farn y dylid cael gwared yn llwyr ar y cynnig i gyflwyno categori "marwolaethau oherwydd tân y gellid eu hatal".

O ran deddfu gyda golwg i ostwng nifer y marwolaethau oherwydd tân, roedd yr aelodau'n cytuno gyda safbwynt y Swyddogion, sef bod popeth posib yn cael ei wneud yn hyn o beth. Roedd y marwolaethau oherwydd tân yn digwydd mewn cartrefi oedd y tu allan i gylch gwaith y fframwaith ddeddfwriaethol. Roedd y Panel o'r farn y byddai'n werth cynnwys sylw yn yr ymateb yn ailddatgan cefnogaeth yr Awdurdod i hyrwyddo gosod systemau taenellu mewn cartrefi fel offeryn effeithiol ar gyfer arbed bywydau a lleihau'r difrod oherwydd tân.

11:05 y bore: Ymunodd y Cynghorydd D Jones â'r cyfarfod bryd hyn.

Datganodd y Cynghorydd J A Roberts fuddiant cyn trafod y cynlluniau cyd-ymatebwyr a thynnodd yn ôl o'r drafodaeth a'r bleidlais. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau o'r farn y dylid o leiaf edrych ar fanteision ac oblygiadau cynllun cyd-ymatebwyr, gan na fyddai bwys gan y cyhoedd ba wasanaeth oedd wedi achub bywyd rhywun. Roedd yr aelodau hefyd o'r farn na ddylai'r Gwasanaeth, ar unrhyw adeg, ddod i gymryd lle'r gwasanaeth ambiwlans. Gofynnodd y Cynghorydd W J Chorlton i'w wrthwynebiad ef i'r cynllun cyd-ymatebwyr gael ei gofnodi. Roedd yn gadarn o'r farn mai'r sefyllfa, dros amser, ac wedi i staff y gwasanaeth tân ac achub gael eu hyfforddi i safon parafeddygon, fyddai trosglwyddo dyletswyddau'r gwasanaeth ambiwlans prysur i'r gwasanaeth tân ac achub. Yn ei farn ef, gallai hyn arwain at fynd â'r Awdurdod i gyfraith petai'r driniaeth anghywir yn cael ei rhoi mewn sefyllfa frys. Pleidleisiodd y Cynghorydd Chorlton yn erbyn cynnwys sylw ar y cynllun cyd-ymatebwyr yn ymateb yr Awdurdod i'r ddogfen. Cafodd y cynnig i gynnwys y sylw ei gario gan bleidlais fwyafrifol.

Yn ystod y drafodaeth ar y System Datblygiad Personol Integredig (IPDS) gofynnodd y Cynghorydd W J Chorlton i gyflwyniad ar IPDS gael ei roi, os oedd modd, i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, gan ei fod yn ymwybodol o sawl pryder ynghylch y system. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod adroddiad ar IPDS wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn y cyfarfod ym mis Mawrth, ond addawodd i roi cyflwyniad arall i'r aelodau cyn gynted ag y byddai'n ymarferol.

Wedi trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r sylwadau oedd yn yr adroddiad, gan aros cynnwys y newidiadau a'r gwelliannau isod, i'w cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 3ydd Mai 2004;***

- ***i. bod yn gair "envisage" ym mharagraff 2.1 yn cael ei newid am y gair "essential";***
- ***ii. bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dosbarthu cylch gwaith y Pwyllgor Strategol y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i bob awdurdod tân cyn gynted ag y bo modd;***
- ***iii. ceisio eglurhad am y diffiniad o'r term "y gellid eu hatal" yng nghyd-destun categori newydd mewn rheoli perfformiad sef "marwolaethau oherwydd tân y gellid eu hatal";***
- ***iv. cynnwys datganiad yn ailddatgan safbwyntiau Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar fanteision gosod systemau taenellu mewn eiddo domestig fel dull effeithiol o ostwng nifer y marwolaethau oherwydd tân a lleihau'r difrod i'r eiddo oherwydd tân;***
- ***v. bod yr Awdurdod yn pryderu ynghylch y diffyg amlwg o ran cyfeiriad at faterion cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg yn y ddogfen ymgynghorol;***
- ***vi. unwaith i'r llythyr o ymateb gael ei lunio bod y Cadeirydd yn cymeradwyo'r fersiwn derfynol, ar ran yr Awdurdod, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru; a***
- **vii.** ***bod cyflwyniad yn cael ei roi i'r Awdurdod ar y System Datblygiad Personol Integredig cyn cynted ag y bo hynny'n ymarferol***

Cafwyd saib am 11:30 y bore ac ailymgynnull am 11:40

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel y byddai eitem ychwanegol o fusnes yn cael ei chynnwys yn y fan hon gan fod y Prif Swyddog Tân yn awyddus i'r aelodau gael cyfle i weld fideo a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Roedd y fideo *"From Strength to Strength"* yn ymdrin â moderneiddio'r Gwasanaeth a byddai'r holl ymladdwyr tân yn cael ei gweld yn ystod yr wythnosau canlynol. Ar ôl gwylio'r fideo aethpwyd yn ôl at yr agenda fusnes.

**6) Yr ymgynghoriad ar "Godi Tân gan Awdurdodau Tân ac Achub"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael safbwyntiau'r Panel ar ddogfen ymgynghorol Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) sef "*Charging by Fire and Rescue Authorities*", roedd copi o'r

ddogfen yn atodiad i'r adroddiad, gyda golwg i geisio cael cytundeb ar ymateb ar ran yr Awdurdod.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc fod y Mesur, fel y'i lluniwyd ar hyn o bryd, yn dileu rhai o'r pwerau oedd gan yr Awdurdod ar hyn o bryd o ran codi tâl. Ar hyn o bryd, roedd modd i awdurdodau godi tâl dros a thu hwnt i gost darparu'r gwasanaeth, am ddarparu rhai gwasanaethau arbennig. Dan y cynigion oedd yn y ddogfen ymgynghorol byddai cyfyngiad ar awdurdodau i godi tâl nad oedd yn uwch na chost darparu'r gwasanaeth. Felly, ni allai awdurdodau greu "elw" o ddarparu gwasanaethau arbennig.

Tynnodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) sylw'r Panel at y ffaith nad oedd y ddogfen ymgynghorol yn cynnwys cynnig i alluogi awdurdodau tân godi tâl am ymateb i alwadau diangen dro ar ôl tro o systemau larwm tân awtomatig. Tynnwyd sylw at y mater yma dan Gynllun Risg yr Awdurdod fel un o'r prif feysydd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn lleihau'r defnydd diangen o adnoddau gwerthfawr. Byddai'r pŵer o godi tâl ar "dramgwyddwyr" parhaus yn offeryn effeithiol i geisio gostwng nifer y mathau yma o alwadau. I ateb cwestiwn ynghylch a allai'r Awdurdod godi tâl ar berchnogion masnachol a/neu ddomestig pan fyddai'r gwasanaeth yn cael ei alw allan dro ar ôl tro dan yr amgylchiadau yma, dywedodd y Clerc y gallai'r Awdurdod benderfynu yn hwyrach ymlaen i ba raddau y gallai godi taliadau am y gwasanaeth yma. Gellid gwneud penderfyniad o'r fath pan fyddai'r pŵer i godi tâl wedi ei ganiatáu.

Yn ôl y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) maes arall a oedd o ddiddordeb arbennig i Awdurdod Tân Gogledd Cymru, na chynhwyswyd mohono yn y ddogfen ymgynghorol, oedd codi tâl am ymladd tân ar y môr neu dan y môr. Roedd yr aelodau'n cytuno a'i safbwynt ef y dylai'r ymateb gynnwys cynnig i gynnwys y pŵer i godi tâl am ddarparu'r gwasanaeth yma yn y gorchymyn cyntaf. Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton nad oedd yr ymgynghoriad yn cyfeirio o gwbl at hawliau arbed (*salvage rights*). Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod y Prif Swyddog Tân yn ymateb i'r ddogfen ymgynghorol ar ran yr Awdurdod; a***

- ***i. ei fod yn ymgorffori i'r ymateb wrthwynebiad yr Awdurdod i'r cynnig i gyfyngu'r taliadau a godir am ddarparu gwasanaethau arbennig i swm na fyddai'n uwch na chost darparu'r gwasanaeth, sef rhywbeth fyddai'n fwy cyfyng na'r pwerau oedd gan awdurdodau ar hyn o bryd;***
- ***ii. y dylai'r gorchymyn cyntaf gynnwys y pŵer i godi tâl am ymateb i alwadau diangen dro ar ôl tro o systemau larwm tân awtomatig;***
- ***iii. y dylai'r gorchymyn cyntaf gynnwys y pŵer i godi tâl am ymladd tân ar y môr neu dan y môr; ac***
- ***iv. unwaith y caiff gorchymyn cyntaf ei wneud dan Gymal 19, fod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol i benderfynu ar yr amgylchiadau y byddai'n dewis codi unrhyw dâl***

## 7) Dirprwyo Pwerau i'r Prif Swyddog Tân

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i ofyn i'r aelodau ystyried y diwygiadau arfaethedig i'r dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân fel a nodwyd yn yr adroddiad a'r atodiad. Esboniodd fod yr adroddiad yn wreiddiol wedi cael ei gyflwyno i'r Panel yn eu cyfarfod ar 27ain Hydref 2003, ond ers hynny roedd wedi cael ei ddiwygio yn dilyn cyhoeddi'r Mesur Drafft y Gwasanaethau Tân ac Achub a Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru. Aeth y Clerc yn ei flaen i esbonio bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o ddirprwyaethau oedd eisoes yn bodoli ac oedd wedi hel dros amser, ynghyd â nifer o ddirprwyaethau arfaethedig newydd. Cafodd yr aelodau wybod y byddai'r dirprwyaethau arfaethedig, petaent yn cael eu mabwysiadau, yn rhoi cyfrifoldebau i'r Prif Swyddog Tân, neu unrhyw un arall y byddai'n dymuno dirprwyo'r swyddogaethau hynny iddynt, am benderfyniadau'r ochr weithredol tra byddai'r penderfyniadau am bolisïau strategol yn parhau gyda'r Awdurdod.

Cyn rhestru'r holl ddirprwyaethau arfaethedig dywedodd y Clerc wrth y Panel y byddai rhai o'r dirprwyaethau presennol naill ai'n darfod neu angen eu newid pan fyddai Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub yn dod yn ddeddf; gwnaed darpariaeth yn yr adroddiad ar gyfer cymeradwyo unrhyw welliannau a fyddai eu hangen ar yr un pryd â chymeradwyo'r dirprwyaethau eu hunain.

Yna, eglurodd y Clerc bob dirprwyaeth yn eu tro ac atebodd gwestiynau'r aelodau. Roedd un aelod yn bryderus y gallai'r wythfed ddirprwyaeth arfaethedig alluogi'r Prif Swyddog Tân i gau gorsaf dân yn barhaol trwy danseilio ei hyfywedd dros gyfnod o amser. Atgoffwyd y Panel gan y Clerc mai gyda'r Awdurdod yr oedd y pwerau i gau gorsafoedd tân. Polisïau a strategaethau'r Awdurdod, a fabwysiadwyd dan ei Gynllun Risg, fyddai'n penderfynu a oedd gorsafoedd yn parhau'n weithredol Derbyniodd yr aelodau yr argymhelliad yn amodol ar ddileu'r geiriau "yn barhaol".

Dywedodd y Clerc wrth y Panel y byddai'r Awdurdod, petai'n mabwysiadu'r dirprwyaethau arfaethedig ynghylch materion personél, yn dod â'i weithdrefnau i gyd-fynd â'r ffordd mae sawl awdurdod lleol yn gweithredu materion personél. Roedd y Panel yn anghysurus â'r argymhellion yma a gofynnwyd i'r Clerc adolygu'r ffordd y'i lluniwyd cyn eu cyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ym mis Gorffennaf. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - argymell i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2004:-***

i. ***y dirprwyaethau arfaethedig 1 i 7 yn gynwysedig, ac 9 a 10 restrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad;***
ii. ***yn amodol ar ddileu'r geiriau "yn barhaol", ddirprwyaeth arfaethedig 8 restrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad;***
iii. ***hepgor dirprwyaeth arfaethedig 11 yn yr atodiad i'r adroddiad; a***

iv. ***bod y Clerc yn ailedrych ar eiriad dirprwyaethau arfaethedig 11 i 14 yn gynwysedig yn yr atodiad i'r adroddiad cyn eu cyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ym mis Gorffennaf 2004 fel eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol***

**8) Dirprwyo Pwerau dros dro cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda'r bwriad o gael yr aelodau i gymeradwyo dirprwyo pwerau yn ystod y cyfnod o ddiwedd cyfnod swydd aelodau presennol yr awdurdod tân hyd at gyfarfod cyntaf yr awdurdod tân wedi'r etholiadau ym mis Mehefin. Esboniodd na fyddai unrhyw beirianwaith mewn lle rhwng y 14eg Mehefin 2004 a dyddiad cyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân, oedd i'w gynnal ar 19eg Gorffennaf 2004, ar gyfer ymdrin â materion brys, sef y rhai y byddai'r Panel Gweithredol fel arfer yn ymdrin â nhw, megis ymarferiadau ymgynghorol lle bo gofyn am ymateb cyn dyddiad cyfarfod cyntaf yr Awdurdod. Felly, y cyngor oedd fod yr Awdurdod yn mabwysiadu peirianwaith ar gyfer y cyfnod hwnnw. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod holl bwerau'r awdurdod tân, ei bwyllgorau a deiliaid ei swyddi yn cael eu dirprwyo i gadeirydd ac is-gadeirydd yr awdurdod tân a etholwyd ym Mehefin 2003 os yr ail-benodir y naill neu'r ddau ohonynt ar yr awdurdod tân neu, os nad ail-benodir y naill na'r llall ohonynt, i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad gyda'r Clerc a'r Trysorydd. Y ddirprwyaeth hon i fod yn weithredol yn ystod y cyfnod rhwng 14 Mehefin 2004 tan gyfarfod cyntaf yr awdurdod tân yn dilyn yr etholiadau ar 10 Mehefin 2004, cyn belled ag y mae'r pwerau hynny'n berthynol i benderfyniadau na fyddai'n rhesymol eu gohirio tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw***

**9) Tendrau**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda'r bwriad o gael yr aelodau i gymeradwyo derbyn y tendrau a dderbyniwyd ar gyfer adeiladu tai hyfforddi yng ngorsafoedd tân Pwllheli a Benllech. Esboniodd ei fod yn rhaid iddo, yn unol â Rheolau Sefydlog Cytundebau'r Awdurdod, geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod cyn y medrai dderbyn unrhyw dendr oedd 10% neu fwy yn uwch na'r ddarpariaeth a wnaed yn y gyllideb. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i dderbyn y tendr am y tŷ hyfforddi ym Menllech am £82,357 a'r tŷ hyfforddi ym Mhwllheli am £89,500.***

**10) Monitro Salwch**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaeth ef ac a gadarnhaodd y Cadeirydd ynghylch caniatáu ymestyn tâl salwch, ac i roi gwybod i'r Panel am lefelau absenoldeb salwch yr Awdurdod am y tri mis diwethaf. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi'r adroddiad**

**11) Y trefniadau ar gyfer penodi Dirprwy Brif Swyddog Tân**

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau fod hysbysebion wedi eu dosbarthu trwy'r sianelau arferol am olynydd i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân oedd yn ymddeol ar 17eg Gorffennaf 2004, gyda'r ceisiadau i ddod i law erbyn 7fed Mai 2004. Y bwriad oedd cwblhau'r rownd gyntaf o gyfweliadau a phrofion gallu yn ystod yr wythnos fyddai'n dod i ben 21ain Mai 2004, gyda'r ail rownd o gyfweliadau a dethol i gymryd lle yn ystod yr wythnos 1af i 4ydd Mehefin 2004.

Yn y gorffennol penodwyd uwch swyddogion gan banel penodi arbennig yn cynnwys aelodau'r Awdurdod yn cynrychioli pob awdurdod cyfansoddol ac roedd yr aelodau o'r farn mai dyma'r trywydd gorau i'w ddilyn ar gyfer y penodiad hwn hefyd. Roeddynt hefyd o'r farn y byddai'n beth priodol i'r un aelodau ag a wasanaethodd ar y panel a benododd Brif Swyddog Tân Cynorthwyol yn ddiweddar wasanaethu ar y panel penodi hwn hefyd os oedd modd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Is-Gadeirydd gael gwasanaethu ar y panel penodi hwn hefyd, yn ogystal â'r aelodau eraill. Dywedodd y Cynghorydd J A Roberts na fyddai ar gael i wasanaethu ar y Panel y tro hwn ac enwebwyd y Cynghorydd W J Chorlton i wasanaethu yn ei le. Felly:

***Penderfynwyd*: -**

*i.* ***cynnal y cyfweliadau ar gyfer swydd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ddydd Gwener 4ydd Mehefin 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl; gyda aelodau'r Panel i neilltuo'r diwrnod cyfan ar gyfer y drefn benodi; a***

*ii.* ***bod y Cynghorwyr T Roberts (Cadeirydd), M Ll Davies (Is-Gadeirydd); E C George, J R Hughes, R P MacFarlane, D M Morris, W T Owen a W J Chorlton i wasanaethu ar y Panel Penodi***

**12) Materion Brys**

Dim.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod gweddill yr eitemau busnes ar yr agenda heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol. Felly:

***Penderfynwyd*: - dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A of Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.**

**RHAN II**

**13) Sawl cais am Wrandawiad ar Gwyn**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio penderfyniad y Panel ar sawl cais gan Undeb y Brigadau Tân (FBU) am wrandawiad ar gwyn; ac i dynnu sylw'r aelodau at nifer o geisiadau gan Undeb yr FBU i alw am weithdrefnau anghydfodau a chenedlaethol ynghylch penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr awdurdod tân. Esboniodd fod yr holl wybodaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac ymddiheurodd fod pennawd y fersiwn Gymraeg o'r adroddiad braidd yn gamarweiniol.

Cyn dechrau ar y drafodaeth ar yr eitem hon o fusnes datganodd y Cynghorwyr R P MacFarlane a W J Chorlton fuddiant fel aelodau wedi ymddeol o'r FBU. Sicrhaodd y Clerc hwy nad oedd hyn yn eu heithrio rhag cymryd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais gan nad oeddynt yn dal i wasanaethu fel ymladdwyr tân ac felly nid oedd ganddynt fuddiant personol yn y canlyniad.

Cafodd yr aelodau eu briffio ar yr holl faterion gynhwyswyd yn yr adroddiad a chawsant yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ynghylch y sefyllfa bresennol o ran y methiant i gytuno a gofnododd yr Undeb mewn perthynas ag ailstrwythuro'r Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu. Yn dilyn gohiriad o bythefnos, ar gais yr Undeb, i ganiatáu rhagor o drafodaethau daethpwyd i gytundeb ar bob mater heblaw am un. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau fod angen iddynt nawr drefnu dyddiad ar gyfer gwrandawiad ar y mater oedd yn weddill. Roedd rhaid trefnu dyddiad o fewn 14 diwrnod o dderbyn y cais. Yn dilyn trafodaeth:

***Penderfynwyd*****: -**

i. ***peidio â chroesawu'r cais am wrandawiad i gwyn bersonol ar y sail fod y mater eisoes wedi ei ymchwilio a'i drin dan y Rheoliadau Disgyblu;***
ii. ***nodi'r wybodaeth am y ceisiadau eraill gan yr FBU i alw am weithdrefnau anghydfodau a chenedlaethol; a***
iii. ***bod y Panel Gweithredol yn cyfarfod am 10 o'r gloch fore Iau 20fed Mai 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rhyl i ymdrin â'r mater oedd yn weddill ac a gofnodwyd gan yr FBU fel methiant i gytuno mewn perthynas ag ailstrwythuro'r Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu***

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 20 Mai, 2004